CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 08.01.24 am 7.00pm trwy Zoom MINUTES OF MEETING HELD ON 08.01.24 at 7.00pm via Zoom

	PRESENNOL: Cynghorwyr S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, H N Evans, A Williams, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	**PRESENT**: Cllrs S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, H N Evans, A Williams, D Fowlie (County Council), G Owen (Clerk)
1	**Croeso ac ymddiheuriadau** – Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd S Jones bawb i'r cyfarfod a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Cafwyd un ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyng E L Jones.	**Welcome and apologies** - The Chairman Cllr S Jones welcomed everyone to the meeting and wished everyone a Happy New Year. There was one apology for absence from Cllr E L Jones.
2	**Datgan Diddordeb** - Dim	**Declarations of Interest** – None
3	**Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf** – Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 06.11.23 fel rhai cywir. Cyng A Williams yn cynnig a'r Cyng O Williams yn eilio.	**Acceptance of minutes of last monthly meeting** – The minutes of the meeting of 06.11.23 were accepted as a true record. Cllr A Williams proposing and Cllr O Williams seconding.
4	**Materion yn codi o'r cofnodion**	**Matters arising from the minutes**
4.1	**Prydles Cae Chwarae** – Dywedodd y Clerc fod HWB Gwalchmai wedi talu'r ffioedd cyfreithiol ar gyfer y cais am les. Mae wedi gofyn i'r Cyngor Sir baratoi prydles newydd.	**Lease of Playing** The Clerk stated that HWB Gwalchmai have paid the legal fees for the lease application. He has asked the County Council to prepare a new lease.
4.2	**Mynwent St Morhaiarn** – Dywedodd y clerc fod Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi cadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn fodlon i'r cyngor fwrw ymlaen â'r prosiect. Mae R G Hire hefyd wedi profi dyfnder y ddaear ac wedi darganfod ei fod rhwng 1.1ma 1.6m cyn taro tir caled.	**St Morhaiarn Cemetery** –The clerk stated that Gwynedd Archaeological Trust have confirmed in writing that they are happy for the council to proceed with the project. R G Hire have also tested the ground depth and found it to be between 1.1m and 1.6m before hitting hard ground.
4.3	**Arian Seilwaith Cymunedol** - Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf pan fydd Mr Dewi Francis Jones o'r Cyngor Sir yn bresennol. Yn y cyfamser, cynigiodd y Cyng D Fowlie gysylltu â Mr Dylan Williams, Prif Weithredwr y Cyngor Sir a Rhun ap Iorwerth am ymatebion.	**Community Infrastructure Money –** This will be discussed at the next meeting when Mr Dewi Francis Jones of the County Council will attend. In the meantime, Cllr D Fowlie offered to contact Mr Dylan Williams, Chief Executive of the County Council and Rhun ap Iorwerth for responses.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 05.02.24	Signature Chairman Date 05.02.24

4.4	**Arwyddion Gwiwerod** – Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb gan Mr H Evans, Castell Edern, Gwalchmai i ofyn am ganiatâd i osod polyn i ddal arwydd ar ffin ei dir. Cynigiodd y Cyng O Williams drafod y mater gydag ef.	**Squirrel Signs** – The Clerk has not received a response from Mr H Evans, Castell Edern, Gwalchmai to ask for permission to place a pole to hold a sign on the border of his land. Cllr O Williams offered to discuss the matter with him.
4.5	**Bragdy – Newhaven** - Mae rhywfaint o waith atgyweirio wedi'i wneud. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	**Bragdy – Newhaven** – Some repair work has been done. The matter will be discussed further at the next meeting.
4.6	**Mudiad Amddiffyn Gwalchmai** – The Clerk has not heard anything further regarding this matter.	**Mudiad Amddiffyn Gwalchmai** – The Clerk has not heard anything further regarding this matter.
4.7	**Prydles Dafarn y Groes** – Mae'r Clerc wedi derbyn copi wedi'i lofnodi o brydles ac mae taliad wedi'i wneud.	**Lease Dafarn y Groes** – The Clerk has received a signed copy of a lease and payment has been made.
4.8	**Llifogydd Gwalchmai** – Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Dŵr Cymru yn gweithio ar y mater ar hyn o bryd. Os nad oes gwelliant, bydd y Cynghorydd H N Evans yn galw cyfarfod gyda nhw.	**Floods Gwalchmai** – Anglesey County Council and Dwr Cymru are currently working on the matter. If there is no improvement, Cllr H N Evans will call a meeting with them.
4.9	**Lorïau'n Goryrru** – Bydd y Cynghorydd H N Evans yn gofyn i'r Cyngor Sir am ganlyniadau data yn dilyn arolwg diweddar. Fe fydd hefyd yn dweud wrthyn nhw fod yna lorïau ychwanegol bellach yn teithio trwy Walchmai. Bydd y Clerc hefyd yn codi'r mater gyda GanBwyll.	**Speeding Lorries** – Cllr H N Evans will ask the County Council for data results following a recent survey. He will also advise them that there are now additional lorries travelling through Gwalchmai. The Clerk will also raise the matter with GoSafe.
4.10	**Arriva** - Nid yw'r Clerc wedi clywed dim pellach ynglŷn â gostyngiad yn y gwasanaeth yng Ngwalchmai. Cynhaliwyd arolwg yn ddiweddar gan Medrwn Môn mewn perthynas â thrafnidiaeth yng Ngwalchmai a chasglwyd adborth gan drigolion. Bydd y Cyng H N Evans yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.	**Arriva** – The Clerk has not heard anything further regarding a reduction in service at Gwalchmai. A survey was carried out recently by Medrwn Mon in relation to transport in Gwalchmai and feedback was collected from residents. Cllr H N Evans will raise the matter with the County Council.
4.11	**Ysbwriel** - Dywedodd y Cyng Fowlie fod y broblem sbwriel yn dal i fod ger y cae pêl-droed yn ogystal â'r ffaith nad yw trigolion yn glanhau ar ôl eu cŵn. Mae'n cysylltu â'r Cyngor Sir.	**Litter –** Cllr Fowlie stated that the litter problem still exists near the football field in addition to residents not cleaning up after their dogs. He is liaising with the County Council.
5	**Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn**	**Correspondence Anglesey County Council**
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 05.02.24	Signature Chairman Date 05.02.24

	Adran Tai	**Housing**
5.1	Cronfa Gwella'r Amgylchedd a Chymuned 2024. Mae'r cyllid grant hwn ar gael i denantiaid wneud ceisiadau fel grwpiau gyda chymorth eu Cynghorwyr Sir. Cynigiodd y Cyng D Fowlie symud y mater yn ei flaen.	Environmental and Community Improvement Fund 2024. This grant funding is available to tenants to make applications as groups wit the help of their County Councillors. Cllr D Fowlie offered to take the matter forward.
	Priffyrdd	**Highways**
5.2	**Llinellau Melyn** – mewn llaw	**Yellow lines** – in hand
	Cynllunio	**Planning**
5.2	HHP/2023/261 Cais llawn i addasu ac ehangu yn Erw Deg, Ffordd Caergybi, Gwalchmai – dim gwrthwynebiad. Ni fydd y cais hwn yn effeithio ar y problemau carthffosiaeth presennol yng Ngwalchmai gan fod ganddynt 3 thoiled yn barod.	HHP/2023/261 Full application for alterations and extensions at Erw Deg, Holyhead Rd, Gwalchmai – no objections. This application will not affect the current sewerage problems at Gwalchmai as they already have 3 toilets.
6	**Gohebiaeth Arall**	**Other Correspondence**
6.1	Un Llais Cymru – Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael gyda Chostau Byw a chynnwys hyn yn y gyllideb flynyddol. Bydd y Clerc yn paratoi gwybodaeth i'w rhoi ar wefan y cyngor.	One Voice Wales – The Community Council has been asked to promote the help that is available with Cost of Living and to include this in the annual budget. The Clerk will prepare information to place on the council's website.
6.2	Chwarel Cae'r Glaw – Gofynnwyd i'r Cyngor am sylwadau ynghylch hysbysiad cyn cyflwyno ar gyfer yr estyniad arfaethedig i Chwarel Cae'r Glaw. Maent yn cadarnhau eu bod wedi derbyn y sylwadau a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn cyflwyno a fydd yn cael ei gynnwys yn y dogfennau cais cynllunio. Bydd y Clerc hefyd yn trefnu ymweliad safle i'r chwarel (ar gyfer aelodau) diwedd Mawrth ymlaen.	Cae'r Glaw Quarry – The Council had been asked for comments regarding a pre submission notice for the proposed extension to Cae'r Glaw Quarry. They confirm that they have received the comments and these will be included within the report on the pre submission consultation which will be included within the planning application documents. The Clerk will also arrange a site visit to the quarry (for members) end of March onwards.
6.3	Llwybr Cyhoeddus – Cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â gwrychoedd sydd angen eu torri ar y llwybr cyhoeddus ger Spite Inn. Cytunwyd gofyn i'r contractwr docio'r gwrychoedd.	Public Footpath – A complaint has been received regarding excessive growth on the public footpath near Spite Inn. It was agreed to ask the contractor to trim the hedges.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 05.02.24	Signature Chairman Date 05.02.24

6.4	PEDW - FPL/2022/256 – Apêl AMP Construction & Groundworks Ltd. Mae PEDW yn cydnabod derbyn y sylwadau ychwanegol a godwyd gan y cyngor cymuned yn ystod y broses apêl.	PEDW - FPL/2022/256 – Appeal AMP Construction & Groundworks Ltd. PEDW acknowledge receipt of the additional comments raised by the community council during the appeal process.
6.5	Smith of Derby – cynnal a chadw cloc Gwalchmai. Mae'r cwmni'n cynnig gwasanaethu'r cloc am £738 ar gyfer 2024, 2025 a 2026. Cytunwyd i fwrw ymlaen.	Smith of Derby – Gwalchmai clock maintenance. The company are offering to service the clock for £738 for 2024, 2025 and 2026. It was agreed to proceed.
6.6	Heddlu Gogledd Cymru – Mae gwybodaeth wedi dod i law ynglŷn â chyllid cymunedol. Mae ceisiadau ar gau ar hyn o bryd ond byddant yn agor eto yn ystod y flwyddyn.	North Wales Police – Information has been received regarding community funding. Applications are currently closed but will open again during the year.
7	**Materion Eraill**	**Other Matters**
7.1	Adolygu Cynllun Hyfforddi – Mae'r Clerc yn anfon gwybodaeth am yr hyfforddiant sydd ar gael gan Un Llais Cymru i aelodau yn fisol. Atgoffwyd yr aelodau i gyflwyno ceisiadau trwy'r Clerc.	Review Training Plan – The Clerk sends information regarding training available from One Voice Wales to members on a monthly basis. Members were reminded to submit applications through the Clerk.
	Arriva – Nodwyd nad yw bysus yn stopio ger tafarn Gwalchmai gan fod ceir bob amser yn parcio wrth y safle bws. Hefyd, nid yw'r arddangosfa electronig yn gweithio yn yr arhosfan y tu allan i Monfa. Bydd y Clerc yn codi'r mater gydag Arriva.	Arriva – It was noted that buses do not stop near the pub at Gwalchmai as cars are always parked at the bus stop. Also, the electronic display does not function at the stop outside Monfa. The Clerk will raise the matter with Arriva.
8	**Materion ariannol**	**Financial Matters**
8.1	Derbyniodd yr aelodau yr adolygiad cyfnodol (Ionawr i Fawrth 2024) a'r adroddiad cyllideb a baratowyd ar gyfer 2024-2025. Cytunwyd i beidio â chynyddu'r praesept ar gyfer 2024-2025.	Members accepted the periodic review (January to March 2024) and the budget report prepared for 2024-2025. It was agreed not to increase the precept for 2024-2025.
	Cytunwyd i dalu	It was agreed to pay
8.2	Rent (cae chwarae) £289.17	Rent (playing field) £289.17
9	**Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf**	**Matters for the next meeting**
9.1	Cyflwr y ffordd (tyllau) ger Drome Garage.	Condition of road (holes) near Drome Garage.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 05.02.24	Signature Chairman Date 05.02.24